Dydd Sadwrn 14 Tachwedd: Dyfrig
III Ioan 5-8; Salm 112; Luc 18:1-8
Gweddïwn dros: Esgobaeth Chicago – Eglwys Esgobol Unol Daleithiau America
Deoniaeth Bro Morgannwg, y Deon Bro, y Parchedig Jimmy Young

Ein Stori Lawen

- Mynegwn ein ffydd Gristnogol yn llawen trwy ein haddoliad, ein gwasanaeth a'n cymdeithas mewn awyrgylch sy'n groesawgar, gofalgar a theuluol ei naws.
- Yr ydym yn meithrin ein plant a'n pobl ifanc trwy weithgareddau'r Ysgol Sul a'r gwasanaethau teuluol, a thrwy ein gwasanaethau litwrgaidd, y geiriau a'r gerddoriaeth cawn ein hysbrydoli i addoli a gwasanaethu'r Duw byw.
- Yr ydym yn falch o annog a chefnogi dysgwyr y Gymraeg.
- Mae croeso ac mae lle yn yr eglwys hon i bawb sydd am ystyried neu ailgydio yn eu ffydd neu sy'n chwilio am gartref ysbrydol.

Os am ragor o wybodaeth am Eglwys Dewi Sant:
Ficer/Vicar: Y Parchedig Ganon Dyfrig C. Lloyd
Rhif Ffôn: 029 2056 6001
E-bost: dyfriglloyd@hotmail.com
Curad / Curate: Y Parchedig Athro Lloyd Llewellyn-Jones
Y Wardeniaid/Churchwardens:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Delyth Davies – Ffôn: 077 61 118722
E-bost: delyth.d@yahoo.com
Cyfarwyddwr Cerdd:
Ieuan Jones, B. Mus - Ffôn: 074 29 012781
E-bost: ieuanjones@hotmail.co.uk
Trysorydd:
Rhys Jones - Ffôn: 029 2056 3834 neu 077 94 897328
E-bost: rhys.helen.jones@btinternet.com
Ysgrifennydd Cymorth Rhodd:
Graham Carson - Ffôn: 07712387203
Ysgrifennydd Cyngor Plwyf:
Marian Fairclough - Ffôn: 07579763030
E-bost: faircloughmarian@gmail.com

EGLWYS DEWI SANT CAERDYDD

www.eglwysdewisant.org.uk

CROESO i bawb sydd yn ymweld â'r eglwys heddiw. Cofiwch ymuno â ni am baned a sgwrs yn y neuadd ar ôl y gwasanaeth.

8 Tachwedd 2026
Teyrnas II – Sul y Cofio

10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân
Darllenwyr: Hannah Watkins / Dilys Jones
Anthem: *'Distewch' gan David. J. Evans*
Emynau: 308 (Lobe Den Herren); 155 (Groeswen); 314 (St Anne); 206 (All Saints)

6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth
Salm: 82
Darlleniadau: Barnwyr 7:2-22
Ioan 15:9-17
Darllenwyr: Gwynn Matthews / Dawn King
Emynau: 460 (St Anne); 387 (St Cecilia 576); 236 (Navarre 269)

YN EIN GWEDDÏAU
Cofiwn yn ein gweddïau y cleifion: Dilys Hicks, Eleri Hughes, Gwenda Williams ac am bawb sy'n gofalu amdanynt.

Gweddïwn hefyd dros bawb a fu farw yn nhangnefedd Crist a thros bawb y cofiwn am eu marwolaeth yr adeg hon o'r flwyddyn. Dyro iddynt, O Arglwydd, orffwys tragwyddol a llewyrched goleuni gwastadol arnynt.

Yn yr Eglwys:

Nos Fawrth 10 Tachwedd 2026
6.00pm Ymarfer Côr

Dydd Mercher 11 Tachwedd 2026
10.30am Y Cymun Bendigaid

Dydd Sul 15 Tachwedd 2026
Teyrnas III – Sul Diogeli
8.00am Y Cymun Bendigaid
10.30am Y Cymun Bendigaid ar gân ac Ysgol Sul
6.00pm Yr Hwyrol Weddi a Phregeth

HEDDIW: SUL Y COFIO

Yn ôl ein harfer fel rhan o'n gwasanaeth Cymun heddiw, byddwn yn cynnal gweithred o gofio gyda dau funud o dawelwch a gosod torch o babi coch ar y Gofeb Goffa sydd yn yr Eglwys, a bydd y côr yn canu anthem.

GWEFAN NEWYDD

Fel rhan o'n dathliadau pen blwydd yn 70 yn y Cilgant y Sul diwethaf fe lansiwyd ein gwefan newydd. Ewch i: www.eglwysdewisant.org.uk.

GOFAL EIN GWINLLAN

Cynhelir sesiwn olaf tymor yr Hydref o Gofal Ein Gwinllan nos Fercher 11 Tachwedd rhwng 7.00pm a 8.30pm. Bydd Dr Meg Elis yn trafod "Cyfuno cefndiroedd – T.I. a Mari Ellis yn yr Eglwys yng Nghymru" a bydd Gerald Morgan yn trafod Idris Bell (1879 – 1967) ac Idris Foster (1911-84). Croeso i bawb ond bydd angen cofrestru o flaen llaw trwy ddilyn y ddolen hon: https://bit.ly/3SyLbZv

COFFI A CHLONC

Byddwn yn cynnal ein bore coffi i siaradwyr newydd y Gymraeg a siaradwyr rhugl dydd Sadwrn 21 Tachwedd yn neuadd yr eglwys rhwng 10.30am a 12.00pm.

CYNGOR PLWYFOL EGLWYSIG

Cynhelir cyfarfod o'r CPE nos Lun 23 Tachwedd am 7.00pm dros Zoom.

Y GANOLFAN GLYD

Mae EDS ar ddyletswydd yn y Ganolfan Glyd dydd Sul 29 Tachwedd a dydd Sul 6 Rhagfyr. Os ydych ar gael i wirfoddoli ar y naill Sul neu'r llall a wnewch chi roi eich enw ar y daflen yng nghefn yr eglwys, neu fynnu gair â Judith Poulson.

ALLWEDD AR GYFER LLAIN PARCIO EDS 2026 -2027

Mae'r cloeon i'r llain parcio i gyd wedi cael eu newid bellach. Os hoffech allwedd newydd mynnwch air â Rhys Jones.

GWAITH AR YR EGLWYS

Mae'r gwaith ar y tŵr bach wedi ei gwblhau ac mae'r sgaffaldau wedi mynd. Mae'r ffenest yng Nghapel Mair wedi cael ei thynnu er mwyn ei thrwsio.

NOSON CAWS A GWIN

Cynhelir noson caws a gwin yn y Ficerdy nos **Iau 26 Tachwedd am 6.30pm**. Er mwyn hwyluso'r gwaith paratoi bydd yn dda cael syniad o'r niferoedd. Felly os ydych yn bwriadu dod a wnewch chi roi eich enw ar y daflen sydd yng nghefn yr eglwys.

CYMDEITHAS WYDDONOL CAERDYDD

I nodi 100mlwyddiant y gymdeithas uchod bydd Esgob Rowan Williams (cyn Archesgob Cymru a Chaergaint) yn rhoi darlith ar y 'Gwyddorau a'r Dyniaethau' ym Mhrifysgol Caerdydd nos Fercher 11 Tachwedd am 6.30pm. Croeso i bawb ond bydd angen cofrestru o flaen llaw: https://www.cardiffscientificsociety.org/programme.htm

CWMNI THEATR A48

Yn ôl ym mis Ebrill eleni cafwyd noson arbennig yng nghwmni theatr A48 gyda 'Lleisiau tu hwynt i'r Bedd". Bydd y cwmni yn ôl yn EDS ar ddiwedd mis Tachwedd gyda pherfformiad o *'Cardiff's Greatest Show'* yn seiliedig ar Arddangosfa Celfyddau Cain a Diwydiannol Caerdydd a gynhaliwyd yn 1896. Bydd perfformiadau nos Iau a nos Wener 26 a 27 Tachwedd am 7.30pm a pherfformiad prynhawn Sadwrn 28 am 4.00pm. Tocynnau £12. Os hoffech docyn ewch i: https://www.ticketsource.com/whats-on/cardiff/eglwys-dewi-sant

Maen nhw'n mynd yn gyflym!

GWARCHOD YR EGLWYS

Margaret Davies, Elvira Amos a Dilys Jones fydd ar ddyletswydd dydd Mercher 11 Tachwedd.

GWEDDÏAU'R SUL

- Province de L'Eglise Anglicane Congo
- Deaoniaeth Eglwysilan, y Deon Bro, y Parchedig Gary Powell

Darlleniadau a Gwyliau

Dydd Llun 9 Tachwedd:

Titus 1:1-9; Salm 24:1-6; Luc 17:1-6

Gweddïwn: Esgobaeth Cashel, Ferns a Ossory, Eglwys Iwerddon

Ardal Gweinidogaeth Taf Rhymni, y Parchedig Rajiv Sidhu

Dydd Mawrth 10 Tachwedd: Leo

Titus 2:1-14; Salm 37:1-6; Luc 17:7-10

Gweddïwn dros: Esgobaeth Chandigarh, Eglwys Unedig India

Ardal Gweinidogaeth Merthyr Tudful, y Parchedig Cerys Smith, arweinydd

Dydd Mercher 11 Tachwedd: Martin

Titus 3:1-7; Salm 23; Luc 17:11-19

Gweddïwn dros: Esgobaeth Chelmsford, Eglwys Loegr Deoniaeth Port Talbot, y Deon Bro, y Parchedig Ben Andrews

Dydd Iau 12 Tachwedd: Tysilio

Philemon 1:4-20; Salm 146; Luc 17:20-25

Gweddïwn dros: Esgobaeth Caer, Eglwys Loegr

Ardal Gweinidogaeth Afon Nedd, y Parchedig Ganon Lynda Newman

Dydd Gwener 13 Tachwedd: Charles Simeon

II Ioan 4-9; Salm 119:1-8; Luc 17:26-37

Gweddïwn dros: Esgobaeth Chhattisgarh – Eglwys Unedig Undia

Ardal Gweinidogaeth Bro Noddfa Newydd, y Parchedig Nicholas Gill, arweinydd